
Testunau Llên a Gwaith Cartref

Neuadd Goffa'r Felinheli, Sadwrn 6 Chwefror 2027

Llên Oedolion	Ifan Prys, Llandwrog
Llên Iau	Casia William, Caernarfon
Celf a Chrefft	Lisa Eurgain, Caernarfon
Dysgwyr	Branwen Glyn, Bontnewydd

Aelod o Gymdeithas Eisteddfodau Cymru



Eisteddfod y Felinheli

Draw yng nghornel y felin – yn araf
fe bentyrrai'r eisin
diwerth, hyd nes daeth dewin
a throi'r hen olwyn, a'i thrin.

Gruffudd Antur, 2025

Barddoniaeth

43	**Blwyddyn 6 ac iau** Cerdd ar y testun 'Yn y Tŷ'	£5, £4, £3	
44	**Dan 18 mlwydd oed** Cerdd ar y testun 'Gorwelion'	£15, £12, £8	
45	**Dan 25 mlwydd oed** Cerdd ar y testun 'Croesi'	£20	
46	**Limrig** Yn cynnwys y llinell 'Mewn tafarn go enwog yn Felin'	£10	A
47	**Englyn** Ar y testun 'Wyneb'	£20	A
48	**Telyneg** Ar y testun 'Ymarfer'	£20	A
49	**Cystadleuaeth y Gadair** Cerdd neu gyfres o gerddi caeth neu rydd hyd at 100 llinell ar y testun 'Cadwyn'	Cadair fechan a £50	A

A Agored o ran oedran.

Rhyddiaith

50	**Blwyddyn 2 ac iau** Llun a Stori - Y Ras	£4, £3, £2	
51	**Blwyddyn 3 – 6** Stori – Wrth y Môr	£5, £4, £3	
52	**Dan 18 mlwydd oed** Stori fer ar y testun 'Tyfu'	£15, £12, £8	
53	**Brawddeg o'r llythrennau:** HEULYN	£10	A
54	**Stori Fer** Cyfle	£20	A
55	**Erthygl Fer am unrhyw ddarn o hanes sy'n berthnasol i Wynedd** Bydd yr erthygl fuddugol yn cael ei hanfon i'r Papur Bro perthnasol lleol	£20	A
56	**Tlws yr Ifanc dan 25 mlwydd oed – Cystadleuaeth Eisteddfodau Cymru -** Darn(au) o farddoniaeth (hyd at 50 llinell) neu ddarn(au) o ryddiaith (hyd at 2000 o eiriau) ar unrhyw ffurf. Agored.	Tlws a £30	
57	**Tlws y Dysgwyr** Proffil ysgrifenedig, neu lafar, ohonoch chi eich hun i'w gynnwys yn Goriad a BangorFelin360	Tlws a £30	
58	**Cystadleuaeth Cyfieithu** Darn gosod gan fusnes lleol. Gweler yr amodau.	£30	A

A Agored o ran oedran.


Celf a Chrefft

Thema i bob oedran: Pobol

Unrhyw gyfrwng gan gynnwys ffotograffiaeth ac eithrio AI. Anogir cystadleuwyr i fynd allan ac edrych o gwmpas yr ardal leol am ysbrydoliaeth.

59	**Blwyddyn Derbyn ac Iau**	£4, £3, £2
60	**Bwyddyn 1 a 2**	£4, £3, £2
61	**Blwyddyn 3 a 4**	£5, £4, £3
62	**Blwyddyn 5 a 6**	£5, £4, £3
63	**Blwyddyn 7, 8, 9**	£10, £8, £6
64	**Agored**	£20

Bydd gwaith enillwyr yn yr adran Celf a Chrefft yn cael ei arddangos yng **Nghapel Bethania, Lôn Emyr, Y Felinheli, LL56 4JD** ar ddiwrnod yr Eisteddfod. Bydd y gwaith yn cyrraedd rhwng 9-10 y bore, a bydd y beirniadu'n dechrau am 10:30. Bydd darnau'r cael eu casglu o 3 ymlaen.



Amodau Arbennig Llenyddiaeth

16	Yr holl gyfansoddiadau llenyddol i fod yn llaw yr Ysgrifennydd, Elen Gwenllïan, 6 Cae Perthi, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4AA **erbyn dydd Sadwrn, 16 Ionawr, 2027**. Anogir ceisiadau dros e-bost: eisteddfodfelinheli@gmail.com. Dalier sylw: Ni fydd yr eisteddfod yn gallu dychwelyd y gwaith gyda chopi o'r feirniadaeth oni fydd yr ymgeiswyr wedi darparu amlen wedi'i stampio a'i chyfeirio. Darperir beirniadaeth dros e-bost ar gais cystadleuwyr wedi'r eisteddfod.
17	Yng nghystadlaethau'r Gadair a Thlws yr Ifanc, **disgwylir i'r buddugol fod yn bresennol** ar ddiwrnod yr Eisteddfod.
18	Bydd cyfansoddiadau anfuddugol yn cael eu hanfon yn ôl at yr awduron os bydd yr Ysgrifennydd yn derbyn cais i'w hanfon yn ôl, gydag amlen briodol a thâl am eu cludo, o fewn mis ar ôl yr Eisteddfod.
19	Dylid nodi ffugenw yn unig ar waith sy'n cael ei anfon. Dylid rhoi'r enw priodol a'r cyfeiriad mewn amlen dan sêl, gyda'r ffugenw a theitl y gystadleuaeth oddi allan. ONI CHEDWIR YN FANWL AT Y RHEOL HON, **NI FYDD Y CYNHYRCHION YN CAEL EU HANFON AT Y BEIRNIAD**.
20	Cedwir hawl gan y Pwyllgor **i gyhoeddi detholiad** o'r cynhyrchion.
21	Cystadleuaeth Cyfieithu – Bydd yr Eisteddfod yn cydweithio â busnes lleol ac yn gosod darn mae un o'r busnesau hyn yn awyddus iddo gael ei gyfieithu er mwyn annog busnesau lleol i ddefnyddio'r Gymraeg. **Dylid cysylltu ar eisteddfodfelinheli@gmail.com i gael copi o'r darn**.

Amodau Arbennig Celf a Chrefft

22	Dylai holl gynnyrch yr Adran hon gyrraedd **Capel Bethania, Lôn Emyr, Y Felinheli, LL56 4JD** rhwng 9 a 10 o'r gloch bore Sadwrn, 6 Chwefror, 2027.
23	Bydd y beirniadu'n dechrau'n **brydlon am 10.30 o'r gloch**.
24	Rhaid i gystadleuwyr **gasglu eu cynnyrch o'r Capel** rhwng 3:30 a 4:30 o'r gloch ar ddiwrnod yr Eisteddfod.